| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad Cyfleusterau Cyhoeddus |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Gyfleusterau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2018.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau i gyfleusterau cyhoeddus ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel', felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw. Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn adolygu cynnydd wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu archwilio.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Gweler adroddiad dilynol yr Adain Archwilio Mewnol yn Atodiad 1, sy'n dangos bod y pedwar mater a godwyd bellach wedi'u datrys yn llwyddiannus. Mae'r gwelliannau a wnaed i drefniadau casglu incwm, cysoni a diogelwch hefyd yn golygu bod y risg o dwyll yn digwydd neu'n digwydd heb i neb sylwi wedi'i lleihau, gyda chanllawiau ar waith i gyfeirio arferion cywir.

Yn seiliedig ar gwmpas yr adolygiad gwreiddiol a'r gwelliannau a wnaed, rydym wedi cynyddu'r sgôr sicrwydd o isel i uchel.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.